COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID - COUNCIL CHAMBER, CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND /REMOTELY DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2023, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | N Farr | J E Pratt |
| T Thomas | A Wathan | AJ Williams | HM Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

W R Goode a/ac JC Spanswick

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Steve Berry | Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyflogiad |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |

21. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

22. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet dyddiedig 12 Ionawr 2023 fel cofnod gwir a chywir.

23. DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIAD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a'i bwrpas oedd rhoi diweddariad i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet ar ddatblygiad Rhianta Corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd, fel y soniwyd yn yr adroddiad, bod y gwasanaeth mewn sefyllfa lle roedd cyfarfodydd is-grwpiau yn cael eu cynnal yn chwarterol, roedd cyfarfod y bwrdd wedi cael ei integreiddio'n llawn, gan bartneru gyda nifer o asiantaethau ac roeddent mewn sefyllfa lle roedd eu strategaeth yn barod i gael ei lansio ddydd Iau, y 27ain o Ebrill 2023.

Cynlluniwyd y strategaeth newydd gyda chyfieithiad i'r Gymraeg ac roedd yn egluro pwrpas y gwasanaeth, eu cynlluniau, eu blaenoriaethau, sut yr oeddent yn bwriadu gwerthuso cynnydd a deall gofynion y dyfodol.

Dywedodd y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi hefyd eu bod wedi sicrhau 45 o addewidion o fewn y strategaeth a dyna oedd eu hymrwymiadau hwy fel gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol, arweinwyr ac uwch reolwyr. Roeddent yn mynegi eu bwriadau, pob un yn ei swydd ei hun, i gefnogi plant, pobl ifanc a'r rhai oedd yn gadael gofal, oedd wedi cael Profiad o Ofal. Roedd y gwasanaeth i gael ei ddwyn i gyfrif gan y Fforwm Ieuenctid ac roedd mesurau wedi cael eu sefydlu gan y Fforwm i'w galluogi i gael cymorth i gwestiynu unrhyw un o'r addewidion hyn a gwerthuso cynnydd gyda chefnogaeth Tros Gynnal Plant (TGP Cymru). Mae TGP yn ddarparwyr eiriolaeth ac maent yn cynorthwyo'r fforwm ynghyd â'r Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogi.

Gorffennodd drwy wahodd yr holl aelodau i fynychu'r Lansiad a drefnwyd yn ddiweddarach yn y mis.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o'r broses a ddilynwyd a'r cynnydd a wnaed. Roedd yn falch o gael gwybod bod mecanwaith cadarn ar waith yn awr i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu clywed ac yn cael gwrandawiad.

Dywedodd eu bod wedi ei weld yn ddiddorol pan oeddent yn cychwyn ar y daith hon nad oedd sefydliadau eraill oedd â chyfrifoldeb am rianta corfforaethol yn deall beth oedd eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau. Ers hynny, mae’r Sefydliadau hyn wedi bod yn ymgysylltu mwy ac mae gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr ffocws gwell ar yr hyn sy’n ofynnol ar gyfer pobl ifanc sydd â Phrofiad o Ofal.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried cynnwys yr Adroddiad ac yn cefnogi cynnydd datblygiad Rhianta Corfforaethol.

24. FY NHÎM CYMORTH AC ADOLYGIAD GWASANAETHAU PRESWYL A THERAPIWTIG

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant, a’i ddiben oedd rhoi diweddariad i’r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol ynghylch:

- Cyllid grant a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru, o dan y Rhaglen Genedlaethol Gwella Canlyniadau i Blant, Dileu Elw Preifat, er mwyn datblygu a gweithredu gwasanaeth Fy Nhîm Cymorth (MyST).
- Adolygu gwasanaethau preswyl a therapiwtig o’r top i’r gwaelod.
- Y gwasanaeth preswyl newydd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer plant.

Dywedodd fod yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ddatblygiadau pellach yn y gwasanaeth lleoli, yn enwedig o fewn y ddarpariaeth breswyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a'r cymorth therapiwtig oedd yn cael ei gynnig i’r Plant â Phrofiad o Ofal fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant fod y gwasanaeth wedi cyflwyno bid i Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2022 dan agenda dileu elw er mwyn gwella eu darpariaeth a’u datblygiad presennol ymhellach, sef y modelau yr oeddent yn gobeithio ymhelaethu arnynt, a ddisgrifiwyd yn fanwl yn yr adroddiad.

Dywedodd eu bod wedi sicrhau cyllid i ehangu'r staff a'r sefydliad ar draws y ddarpariaeth breswyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel y gallent gael set sgiliau fwy amrywiol o brofiad yng ngharfan y staff i gartrefi sy'n darparu ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal ar hyn o bryd.

Ymhelaethodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant ar rôl gwasanaeth “Fy Nhîm Cymorth (MyST)” gan nodi ei fod yn ymwneud â chreu tîm o amgylch y plentyn, fydd yn asesu ei anghenion ac yn nodi'r dewis gorau ar gyfer sefydlogrwydd a’r cymorth cofleidiol i sicrhau hynny. Cyn cwblhau’r rôl, comisiynwyd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus i adolygu’r dulliau gweithredu presennol a gyflwynwyd hyd yma a gofynnwyd am argymhellion ynghylch y ffordd orau i wneud y gorau o’r cyllid i adeiladu ar brosesau presennol er mwyn darparu mwy o gymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, y mae arnynt angen ymyriadau dwys i oresgyn trawma. Dywedodd mai’r nod oedd cofrestru’r ddarpariaeth newydd “Meadows View” erbyn Mehefin 2023 a’r gobaith oedd y byddai’n barod i agor gyda’r tîm newydd yn ei le. Daeth â'i chyflwyniad i ben a gwahoddodd gwestiynau iddi hi ei hun a/neu'r Swyddog oedd yn Unigolyn Cyfrifol - Gofal Cymdeithasol Plant.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo bod y model wedi'i lywio gan drawma yn fodel ardderchog o arfer da. Dywedodd ei bod yn teimlo ei fod yn hyblyg iawn ar gyfer gweithio gyda'r galwadau cynyddol a chymhlethdod yr achosion oedd yn cael eu derbyn. Cafodd Meadows View ei enwi gan blant Pen-y-bont ar Ogwr a’i barn hi oedd ei bod yn bwysig bod ganddynt berchnogaeth dros eu cartref eu hunain oherwydd mai dyna oedd hwn yn mynd i fod iddynt.

Mynegodd y Cadeirydd bryderon bod y gwasanaeth yn cynnig cytundebau cyflogaeth i'r staff newydd am ddwy flynedd tra roedd hi’n teimlo bod angen iddo fod yn barhaol gan na allai ddychmygu na fyddai angen y staff ar ôl y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy ddweud, fel rhan o’r broses gofrestru, gyda golwg ar y ffordd y câi staff eu cyflogi, y câi pwysau cyllidebol eu rhoi gerbron, ac y byddai’r Cyngor yn eu cymeradwyo yn ôl y gyllideb oedd yn cael ei phennu ar gyfer blwyddyn 2023. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl sefydlu'r gweithlu parhaol gorau posibl. Fodd bynnag, defnyddid hyblygrwydd hefyd gan ddileu arian elw gan Lywodraeth Cymru, sef cyllid grant 2 flynedd ar hyn o bryd. Roedd heriau yn wynebu nid yn unig y gwasanaeth hwn ond llawer o wasanaethau yn y fwrdeistref sirol oedd yn dibynnu ar arian grant, nad oedd yn para y tu hwnt i’r dyraniad cychwynnol. Roedd yn hanfodol i'r gwasanaeth gael cynllun cynaladwyedd ariannol. Fel gwasanaeth, rhagwelid y byddai gostyngiad yn nifer y plant oedd yn gorfod symud allan o'r sir i gartrefi gofal preswyl drud yn y sector annibynnol o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon.

Dywedodd y byddent yn rhagweld y byddent mewn ffordd gynaliadwy yn lleihau nifer y plant yr oedd arnynt angen cymorth gofal preswyl hirdymor, oherwydd drwy’r dull asesu dwys a’r dull therapiwtig hwnnw, y gobaith oedd y byddent yn medru byw mewn teuluoedd maeth yn y fwrdeistref sirol. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei bod yn hollbwysig defnyddio'r gyllideb honno'n fwyaf effeithiol dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn cyrraedd sefyllfa lle y cyflawnid contractau hirdymor cynaliadwy ar gyfer y gweithlu tra'n lleihau costau mewn rhannau eraill o'r system.

Holodd yr Arweinydd am y berthynas a’r bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o ran y cymorth y disgwylid fyddai’n cael ei ddarparu am fod angen iddo fod yn ddi-dor. Dywedodd fod ateb anghenion iechyd y plant a'r bobl ifanc hyn yn hanfodol ac y byddai angen cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y cymorth yn ddiwnïad.

Atebodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant, er nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud ymrwymiad pendant o ran y gwasanaethau y byddent yn eu darparu, y byddent yn cymryd rhan yn yr adolygiad gydag argymhellion i’r gwasanaeth eu cyrraedd.

Awgrymodd yr Arweinydd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i gyfarfod a thrafod y ffordd orau o gyflawni cyfrifoldebau.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Arweinydd gan ddweud, o ran yr adroddiad blaenorol, fod ganddynt ymrwymiadau gydag eglurder gan yr holl bartneriaid, ac y cafwyd cynrychiolaeth dda ar lefel uwch o'r holl bartneriaid hynny ar y bwrdd a gadeirir gan y Dirprwy Arweinydd. Dywedodd y byddai'n rhagweld, wrth symud ymlaen, y byddai'r holl bartneriaid hynny yn dod yn eu tro i mewn i Bwyllgor ffurfiol y Cabinet i esbonio sut y maent yn cyflawni yn erbyn eu hymrwymiadau o ran y manylion yn yr adroddiad.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn bwysig bod ymgysylltu â'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) yn arwain at ganlyniad lle roeddent yn glir bod eu cyfraniad hwy yn nhermau arweinyddiaeth broffesiynol a goruchwyliaeth glinigol dros y gwasanaethau a ddarperid.

Aeth ymlaen i ddweud y treuliwyd llawer o amser gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r agenda hon a'u bod wedi tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da o fannau eraill yng Nghymru, lle roedd mewnbwn y Byrddau Iechyd yn gryf mewn termau ymarferol iawn o ran materion darpariaethau preswyl tebyg oedd yn cael eu datblygu.

Dywedodd fod yna nifer o fecanweithiau yn ychwanegol at adolygiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus; roedd yna Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yr oedd y Dirprwy Arweinydd yn ei gadeirio, oedd wedi derbyn partneriaeth plant fel rhan o hynny a bod datblygu darpariaeth breswyl yn un o'r blaenoriaethau allweddol drwy'r partneriaethau preswyl. Roedd cyfarfodydd ar lefel uchel iawn ar ddod gyda'r Bwrdd Iechyd lle y disgwylid trafodaethau ynghylch blaenoriaethau CBSP a'u blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Unigolyn Cyfrifol - Gofal Cymdeithasol Plant i rannu gwybodaeth bellach a dywedodd y byddai rhan nesaf adolygiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn weithdy neu'n sesiwn adborth gyda CAMS ac roedd Addysg yn cael eu gwahodd hefyd.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd y model newydd yn cael ei weithredu yn y ddarpariaeth newydd ym Mrynmenyn ac atebodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig defnyddio un model o ymarfer fel bod staff a phlant, pwy bynnag oedd yn eu rheoli, yn eu cefnogi ac yn byw gyda hwy, i gyd yn cael eu rheoli a'u cefnogi yn yr un ffordd.

Ategwyd hyn gan Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant.

Gofynnodd yr Arweinydd hefyd a oedd cynlluniau yn eu lle i weithio gyda darpariaeth addysgol arbenigol gydag Ysgol Bryn Castell, Heronsbridge a'r Bont er mwyn sicrhau bod y model a gâi ei fabwysiadu yn gyson ar draws bywyd y person ifanc hwnnw, gan y cydnabyddir bod rhan fawr o fywyd plentyn yn yr ysgol ac mewn addysg ac felly ei bod yn ofynnol i'r dull fod yn ategol ac yn gyson.

Atebodd y Dirprwy Arweinydd mai un o'r pethau a wnaed fel rhan o'r strategaeth Rhianta Corfforaethol oedd cyflwyno arwyddion diogelwch. Byddai'r model ymarfer yn mynd i bob sefydliad i gyfrannu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Dywedodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant, pan luniwyd y cais am grant yn ystod hydref 2022, fod cydweithwyr o'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi gweithio arno gyda'r gwasanaeth a'u bod wedi edrych i mewn i'r angen i ddatblygu darpariaeth addysg yn Meadows View.

Fe'i hawgrymwyd fel dewis ond nid oedd digon o arian. Roedd yn well gan y Gwasanaeth i'r plant â Phrofiad o Ofal fynychu'r lleoliadau presennol yn ogystal â threulio amser gyda'r plant y tu allan i'r cartref yr oeddent yn byw ynddo hefyd.

Cadarnhaodd fod y gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi chwarae rhan a dywedodd, er nad oedd darpariaeth addysg yn cael ei datblygu, y bu sgyrsiau am ddatblygu gwasanaeth Fy Nhîm Cymorth.

Hysbysodd y pwyllgor ei bod wedi cael ei gwahodd i'r digwyddiad i randdeiliaid y cyfeiriwyd ato'n gynharach a'i bod yn hyderus y byddai cydweithwyr eraill o'r ysgolion y cyfeiriwyd atynt hefyd yn cael eu gwahodd oherwydd mai'r ysgolion a enwyd oedd y rhai yr oeddent mewn cysylltiad â hwy yn bennaf.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Argymell bod Pwyllgor y Cabinet - Rhianta Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad. |

25. GWEITHREDU PANEL ATAL CAMFANTEISIO PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Reolwr y Grŵp Peripatetig, a'i ddiben oedd hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma o ran datblygu a gweithredu Panel Atal Camfanteisio gweithredol amlasiantaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rhannodd gyflwyniad gyda'r pwyllgor a gwahoddodd gwestiynau.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o weld cynnydd yn digwydd a gofynnodd am rywfaint o eglurder. Gofynnodd a oedd yr offer a grybwyllwyd yn y cyflwyniad yn cael eu defnyddio mewn Cymorth Cynnar ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys oherwydd bod y strategaeth yn un ranbarthol. Dywedodd fod yr arolygiad wedi nodi ei fod yn rhywbeth i'r holl bartneriaid ac mai edrych am sicrwydd yr oedd hi.

Atebodd Rheolwr y Grŵp Peripatetig drwy gadarnhau bod Cymorth Cynnar yn rhan o ddefnyddio'r offer a grybwyllwyd ond rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor y byddai'n estyn allan i'r Ysbytai hefyd.

Gofynnodd aelod sut yr oedd yn bwriadu ymgysylltu â rhieni er mwyn sicrhau nad yw plant yn cael eu hecsbloetio.

Atebodd Rheolwr y Grŵp Peripatetig gan gyfeirio at waith a wnaed yn ei rôl mewn Awdurdod Lleol blaenorol, a dywedodd y byddai'n hapus i rannu'r adnoddau a ddefnyddid a thrwy hynny eu rhannu â chynulleidfa ehangach, ond dywedodd hefyd, fodd bynnag, mai gwaith yn datblygu ydoedd o fewn y lleoliad presennol.

Gofynnodd aelod a fu ystyriaeth i ymestyn ymgysylltiad cymunedol tuag at economi'r nos, sef tafarndai, clybiau nos a goruchwylwyr drysau.

Atebodd Rheolwr y Grŵp Peripatetig gan ddweud bod datblygu eu perthynas â'r gymuned ehangach yn hanfodol i'r strategaeth ac er ei bod yn broses araf, ei fod yn waith oedd yn mynd yn ei flaen.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod camfanteisio o'r fath yn cael ei gelu a'i guddio lle 'roedd y bobl ifanc eu hunain yn cael eu gweld fel troseddwyr oherwydd bod rhai wedi camfanteisio arnynt i gyflawni troseddau. Holodd beth oedd rôl Heddlu De Cymru, oherwydd, er bod rôl hollbwysig gan yr awdurdod o ran diogelu a gwasanaethau cymdeithasol, bod rôl yr un mor bwysig gan Heddlu De Cymru i wneud y gyfraith yn glir i bobl/i'r cyflawnwyr, am mai plant a phobl ifanc y fwrdeistref oedd yn cael eu hecsbloetio. Fel y cyfryw, dylid ei ystyried yn drosedd ac felly roedd angen gwaith gyda Heddlu De Cymru i sicrhau bod y troseddau hynny'n cael eu canfod a'r troseddwyr yn cael eu dwyn gerbron y llys.

Dywedodd y byddai'n croesawu diweddariad yn y dyfodol gan Heddlu De Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod gan Heddlu De Cymru eu strwythur a'u bod yn cefnogi'r gwaith a wnaed i atal ac i fynd i'r afael â chamfanteisio. Roeddent wedi creu adnodd canolog yn BCU oedd yn gysylltiedig â Heddlu De Cymru. Mae yna hefyd Uned Atal Trais (VPU) yr oedd y bwrdd diogelu wedi gwneud cais iddi, yr oeddent wedi'i nodi yn yr adnoddau ar gyfer CBSP. Dywedodd fod disgwyl i CBS Pen-y-bont ar Ogwr gael mwy o adnoddau strategol ar lefel ranbarthol i symud ymlaen a datblygu'r strategaeth ar draws CTM. At hynny, roedd Rheolwr y Grŵp Peripatetig wedi bod yn arwain partneriaethau ar lefel arbenigol i wneud yn siŵr, yn weithredol, bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr lle y mae angen iddo fod. Awgrymodd efallai, ymhen chwe mis i flwyddyn, y byddai Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn

ailymweld â'r pwyllgor gyda'i phartneriaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd wedi cael ei wneud.

Croesawodd yr Arweinydd hyn gyda phwynt gweithredu ychwanegol sef bod y pwyllgor yn derbyn adroddiad gan bartneriaid. O ystyried difrifoldeb a maint yr her, credai y byddai chwe mis yn bwynt amserol i fesur y cynnydd a wnaed.

PENDERFYNWYD:

- Argymell bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar y cynnydd presennol yn y gwaith ynghylch camfanteisio ac yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Panel Atal Camfanteisio amlasiantaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Bod y Pwyllgor i dderbyn adroddiad gan bartneriaid ymhen 6 mis.

26. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:19